



Llywodraeth Cymru Welsh Government

Rhaglen Ryngwladol yr OECD ar gyfer Asesu Myfyrwyr (PISA) yng Nghymru Hysbysiad Preifatrwydd

Beth yw PISA

Mae Cymru, ynghyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan yn Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD). Diben yr astudiaeth yw meincnodi ein haddysg a'n polisi yn erbyn gwledydd eraill, adolygu cryfderau a gwendidau ein system mewn cyd-destun rhyngwladol, a monitro tueddiadau dros amser yn ôl mesurau annibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gytundeb rhannu gydag Adran Addysg y DU (DfE) ac Adran Addysg Gogledd Iwerddon. Fel rhan o hwn, mae Adran Addysg y DU yn caffael Rheolwr Rhaglen Cenedlaethol i weinyddu PISA 2018 ar ein rhan. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg wedi'i benodi fel y contractwr a Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data. Bydd y Sefydliad yn prosesu'r wybodaeth sy'n ymwneud â Chymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Cymryd rhan yn PISA

Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth yn fater gwirfoddol. Os oes unrhyw gwestiynau nad ydych yn dymuno eu hateb cewch eu gadael yn wag. Drwy ddarparu gwybodaeth fel rhan o PISA, rydych yn cytuno y bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu'n cael ei defnyddio fel y nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Byddwn yn prosesu'r data hyn fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus ac o'r awdurdod swyddogol a roddwyd inni, ac yn nhermau'r data categori arbennig, ar gyfer dibenion ystadegol a gwneud gwaith ymchwil.

Sut y byddwn yn defnyddio data personol

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cael unrhyw ddata nes bod yr asesiad PISA wedi'i gwblhau a'r adroddiad wedi'i gyflwyno. Ar ôl hynny, mae'r data personol yn cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru gan SCYA.

At ddibenion PISA, bydd Llywodraeth Cymru a SCYA yn cysylltu'r wybodaeth â gwybodaeth arall sydd gan Llywodraeth Cymru eisoes fel y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), a chanlyniadau Cyfnod Allweddol 4. Pwrpas hyn yw osgoi gofyn i'r rhai a gymerodd ran dro ar ôl tro am wybodaeth sydd gennym eisoes ac i'w gwneud yn bosibl dadansoddi a deall ein polisiau addysg.

Pan fydd y gwaith cysylltu hwn wedi digwydd, mae'r data yn cael ei drin cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl fel nad oes modd adnabod unrhyw fyfyrwr unigol nac ysgolion sydd wedi cymryd rhan. Mae'r data dienw'n cael eu cadw am gyfnod amhenodol ar gyfer dadansoddi tueddiadau.

Nid yw SCYA yn cadw unrhyw wybodaeth unwaith y bydd y data wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Ni fydd Llywodraeth Cymru (na chontractwyr a benodwyd ganddi) yn rhannu ag unrhyw drydydd partïon unrhyw wybodaeth a fyddai'n ei gwneud yn bosibl adnabod unigolion sy'n cymryd rhan yn PISA, oni bai bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Bydd data hefyd yn cael eu rhannu gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ond set o ddata dienw yn unig y bydd yn ei chael, er mwyn darparu ystadegau cyfanredol.

Ni fydd unrhyw ddisgybl neu ysgol unigol yn cael eu henwi ac ni fydd yn bosibl eu hadnabod mewn unrhyw adroddiadau.

Diogelwch a Chyfrinachedd

Bydd unrhyw ddata personol a gesglir gan Lywodraeth Cymru (a sefydliadau sy'n gweithredu ar ei rhan) yn cael eu trin mewn modd diogel a chyfrinachol. Defnyddir y data at ddibenion gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi ystadegau sy'n ymwneud â'r system addysg yng Nghymru yn unig.

Mae gennych hawl i wneud y canlynol:

- Gweld y data personol rydyn ni'n eu prosesu amdanoch chi;
- Ei gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- Gwrthwynebu prosesu'r data - o dan rai amgylchiadau;
- Gofyn i'ch data gael eu 'dileu' - o dan rai amgylchiadau;
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data (manyllion cyswllt isod).

Sut i leisio pryder

Os ydych yn dymuno cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch eich hawliau o dan deddfwriaeth diogelu data, cewch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru.

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: **DataProtectionOfficer@llyw.cymru**

Fel arall, efallai y bydd yn well gennych gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
2il Lawr
Churchill House
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 0292 067 8399

E-bost: wales@ico.org.uk

Gallwch hefyd gysylltu â:

Glynis Wilson
Pennaeth Busnes y Llywodraeth ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau
Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: **Glynis.Wilson@llyw.cymru**